Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

# Lleisiau Abertawe: Herio stigma tlodi gyda'n gilydd

## Goblygiadau ar gyfer polisi ac ymarfer








# Ein Cenhadaeth

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn pontio'r bwlch rhwng ymchwil a gwneud penderfyniadau drwy wneud tystiolaeth drylwyr ac arbenigedd yn hygyrch, yn berthnasol, ac yn ymarferol i lunwyr polisïau, ymarferwyr ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru.

Ein gweledigaeth: Cymru lle mae polisïau ac ymarfer cyhoeddus yn cael eu llunio'n gyson gan y dystiolaeth a'r wybodaeth orau sydd ar gael, gan arwain at wasanaethau cyhoeddus sy'n fwy effeithiol, cyfiawn ac ymatebol.

**Ein cenhadaeth**

- **ADNABOD.** Rydyn ni'n gweithio ar y cyd â'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol i'w helpu i adnabod eu heriau polisi mwyaf dyrys, ac yn llunio cyfleoedd ystyrlon er mwyn creu atebion sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
- **YMGYNNULL.** Rydyn ni'n dadansoddi ac yn cyfosod ymchwil o safon uchel mewn modd amserol, ac rydyn ni'n dwyn ynghyd arbenigwyr o'r DU ac yn fyd-eang i wella penderfyniadau polisi, a'r broses o'u rhoi ar waith.
- **DATBLYGU.** Rydyn ni'n ehangu gwybodaeth ym maes polisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth drwy rannu'r hyn rydyn ni'n ei ddysgu, gwerthuso effaith, a chyfrannu at gronfa wybodaeth gynyddol o'r hyn sy'n gweithio'n ymarferol.

Mae gwaith y Ganolfan yn canolbwyntio ar yr heriau polisi mwyaf sy'n wynebu llunwyr polisi yn lleol ac yn genedlaethol yng Nghymru. Mae dull y Ganolfan wedi'i seilio ar ymchwil academaidd sy'n arwain y sector, ar yr hyn sy'n pontio'r bwlch rhwng ymchwil a'r gwaith o lunio polisïau.

Mae'r Ganolfan yn aelod o Rwydwaith 'What Works' y DU a Rhwydwaith Ymgysylltu â Pholisi'r Prifysgolion (UPEN).

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'n gwefan: [www.wcpp.org.uk](http://www.wcpp.org.uk)

## Cyllidwyr Craidd

CARDIFF UNIVERSITY PRIFYSGOL CAERDYDD

**Cafodd Prifysgol Caerdydd** ei sefydlu yn 1883. Wedi'i lleoli mewn prifddinas lewyrchus, mae Caerdydd yn brifysgol uchelgeisiol ac arloesol, sy'n benderfynol o feithrin perthnasoedd rhyngwladol cryf wrth ddangos ei hymrwymiad i Gymru.

UKRI Economic and Social Research Council

Mae'r **Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC)** yn rhan o UK Research and Innovation, sefydliad newydd sy'n dod â saith cyngor ymchwil y DU, Innovate UK a Research England ynghyd i wneud y mwyaf o gyfraniad pob cyngor a chreu'r amgylchedd gorau i ymchwil ac arloesi ffynnu.

Llywodraeth Cymru Welsh Government

**Llywodraeth Cymru** yw llywodraeth ddatganoledig Cymru, sy'n gyfrifol am feysydd allweddol o fywyd cyhoeddus, gan gynnwys iechyd, addysg, llywodraeth leol, a'r amgylchedd.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Crynodeb** | **4** |
| **Am yr adroddiad hwn** | **6** |
| **Cefndir** | **7** |
| Diffiniadau o Stigma Tlodi | 7 |
| Ein proses | 8 |
| **Canfyddiadau'r ymchwil cymunedol** | **10** |
| **Beth sy'n gweithio er mwyn mynd i'r afael â stigma tlodi?: Tystiolaeth ryngwladol** | **12** |
| Dileu stigma o fynediad at gymorth | 13 |
| Darparu gwasanaethau ag urddas a pharch | 14 |
| Newid iaith, diwylliant a systemau | 15 |
| **Dod ag ymchwil cymunedol a thystiolaeth ryngwladol at ei gilydd** | **16** |
| **Llwybrau gweithredu** | **21** |
| **Casgliad** | **30** |
| **Ffynonellau** | **31** |
| **Atodiad 1: Syniadau ar gyfer gweithredu** | **33** |




# Crynodeb

- Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r prif fewnwelediadau sy'n ymwneud â deall, atal a mynd i'r afael â stigma tlodi ar lefel leol yn Abertawe a thu hwnt.
- Nod y prosiect hwn oedd darparu gwybodaeth ar gyfer Strategaeth Mynd i'r Afael â Thlodi 2026 Cyngor Abertawe, a gyhoeddir yn fuan, ac ymdrechion ehangach i fynd i'r afael â stigma tlodi yn yr ardal.
- Er mwyn cyflawni hyn, mewn partneriaeth â thîm o ymchwilwyr cymunedol wedi'u lleoli yn Abertawe, daeth Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru â llunwyr polisïau lleol, ymarferwyr ac arbenigwyr drwy brofiad at ei gilydd i archwilio eu persbectifau mewn deialog â thystiolaeth ryngwladol, ac i gyd-greu camau gweithredu yn seiliedig ar dystiolaeth er mwyn gweithio tuag at Abertawe ddi-stigma.
- Mae'r camau gweithredu a gynigir yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar:

  a) saith grŵp ffocws gyda 46 o bobl mewn saith grŵp cymunedol;

  b) pedwar gweithdy gyda phobl sydd â phrofiad personol, llunwyr polisïau ac ymarferwyr; ac

  c) canfyddiadau adolygiad cyflym o dystiolaeth.
- Blaenoriaethwyd cyfanswm o wyth cam gweithredu i'w hystyried gan Gyngor Abertawe a gwasanaethau ehangach (gweler Ffigur 1).
- Aeth y cyfranogwyr ymlaen wedyn i archwilio beth fyddai ei angen er mwyn gwneud y blaenoriaethau hyn yn realiti yn Abertawe. Mae'r adroddiad yn nodi awgrymiadau'r cyfranogwyr ar gyfer sut y gellid rhoi'r blaenoriaethau hyn ar waith yn ymarferol yn Abertawe.

## Dileu stigma o fynediad at gymorth

Gwella rhannu data ar draws adrannau er mwyn symleiddio prosesau mynediad a chymorth

Dileu asesiadau ailadroddus drwy integreiddio gwasanaethau a rhannu gwybodaeth

Buddsoddi mewn mannau cymunedol sy'n cynnig nifer o wasanaethau

## Darparu gwasanaethau ag urddas a pharch

Sefydlu mynediad at hyfforddiant stigma tlodi di-dâl i bob gweithiwr proffesiynol, wedi'i dargedu'n benodol tuag at fynd i'r afael â stigma

Sicrhau bod gwasanaethau'n gyfleus i bobl sydd angen cael mynediad atynt, er enghraifft drwy sicrhau y darperir man ffisegol neu wasanaethau wyneb yn wyneb er mwyn osgoi allgáu digidol

Archwilio am ffyrdd gwell o gefnogi'r grwpiau sydd fwyaf tebygol o brofi stigma tlodi, fel ceiswyr lloches a ffoaduriaid, sy'n aml heb waith

## Newid iaith, diwylliant a systemau

Cynyddu rhan pobl sydd â phrofiad personol wrth ddylunio, darparu a gwerthuso gwasanaethau

Sicrhau iaith hygyrch a di-stigma mewn cyfathrebiadau megis ffurflenni a llythyrau swyddogol

**Ffigur 1: Camau gweithredu a flaenoriaethwyd i'w hystyried gan Gyngor Abertawe a gwasanaethau ehangach.**

# Am yr adroddiad hwn

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r prif fewnwelediadau er mwyn deall, atal a mynd i'r afael â stigma tlodi ar lefel leol yn Abertawe a thu hwnt.

Mae'n seiliedig ar ganfyddiadau a gynhyrchwyd drwy brosiect ymchwil cydweithredol, seiliedig ar le, yn cael ei arwain gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (WCPP) ochr yn ochr â thîm o ymchwilwyr cymunedol wedi'u lleoli yn Abertawe a Chydweithfa Pont. Ein nod yw darparu gwybodaeth ar gyfer Strategaeth Mynd i'r Afael â Thlodi 2026 Cyngor Abertawe, a gyhoeddir yn fuan, ac ymdrechion ehangach i fynd i'r afael â stigma tlodi yn lleol. Er mwyn cyflawni hyn, fe wnaethom ddod â llunwyr polisïau lleol, ymarferwyr ac arbenigwyr sydd â phrofiad personol at ei gilydd i edrych ar bolisi lleol, ymarfer a phrofiad personol yn ymwneud â stigma tlodi, mewn deialog â thystiolaeth ryngwladol. Cefnogodd y broses hon y gwaith o gyd-greu camau seiliedig ar dystiolaeth i fynd i'r afael â stigma tlodi yn Abertawe.

Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn ochr yn ochr ag adroddiad cymunedol, a ddatblygwyd gan yr ymchwilwyr cymunedol a oedd yn rhan o'r prosiect (Ramasut et al., 2025), ac adolygiad cyflym o dystiolaeth (RER) a gynhaliwyd gan y Gynghrair Tlodi ac Uned Ymchwil i Dlodi ac Anghydraddoldeb yr Alban (Robertson et al., 2025).

## Rhaglen waith ehangach ar stigma tlodi

Mae'r ymchwil a'r argymhellion a nodir yn yr Adroddiad Polisi ac Ymarfer hwn yn rhan o raglen waith ehangach gan WCPP er mwyn cryfhau a darparu gwybodaeth i ymdrechion i atal a mynd i'r afael â stigma tlodi mewn gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Ysgogwyd y rhaglen yn dilyn adolygiad o dlodi ac allgáu cymdeithasol a gwblhawyd gan WCPP yn 2022 ar gyfer Llywodraeth Cymru, a oedd yn nodi bod mynd i'r afael â stigma tlodi yn un o'r prif flaenoriaethau i bobl sy'n profi tlodi (Carter et al., 2022).

Er mwyn adeiladu ar y gwaith hwn a darparu gwybodaeth ar gyfer polisi ac ymarfer ar lefel leol a chenedlaethol, fe wnaethom gomisiynu adolygiad cyflym o dystiolaeth gan edrych sut mae stigma tlodi wedi cael ei atal yn effeithiol neu wedi cael sylw mewn polisi ac ymarfer yn y DU ac yn rhyngwladol (Robertson et al., 2025). Ochr yn ochr â hyn, fe wnaethom sefydlu'r Rhwydwaith Mewnwelediad i Stigma Tlodi er mwyn rhannu syniadau, arferion da ac enghreifftiau o'r hyn sy'n gweithio, tra'n rhoi lleisiau ac arbenigedd pobl sydd â phrofiad personol o stigma tlodi wrth graidd nodi problemau a llunio atebion.

Mae'r holl waith hwn yn gyson ag Amcan 4 o Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth Cymru: 'herio'r stigma sy'n gysylltiedig â thlodi a sicrhau bod plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn cael eu trin ag urddas a pharch gan y bobl a'r gwasanaethau sy'n rhyngweithio â nhw ac yn eu cefnogi' (Llywodraeth Cymru, 2024a, t. 31).

# Cefndir

## Diffiniadau o stigma tlodi

Nid oes un diffiniad cytunedig o stigma tlodi yn y llenyddiaeth bresennol nac mewn polisi ac ymarfer. Yn yr adroddiad hwn, rydym yn defnyddio cysyniad Inglis et al. (2019, t. 2) o stigma tlodi fel 'y mathau cyfunol o stigma y mae pobl sy'n byw ar incwm isel yn eu profi'. Mae Inglis et al. (2024, t. 1) yn gwahaniaethu rhwng pedwar math o stigma tlodi:

**Stigma a dderbynnir:** math o wahaniaethu wedi'i gyfeirio at berson oherwydd bod ganddo incwm isel. Mae enghreifftiau ohono'n cynnwys unigolyn yn cael ei amharchu neu ei farnu'n annheg gan bobl eraill.

**Stigma a ragwelir:** pryder unigolyn y bydd eraill yn ei drin yn annheg oherwydd bod ganddo incwm isel.


**Hunan-stigma:** pan fydd pobl ar incwm isel yn mewnoli stereoteipiau negyddol ac yn cymhwyso'r rhain iddyn nhw eu hunain. Mae gan y math hwn o stigma ddimensiwn emosiynol hefyd a gall gael ei brofi fel teimladau o gywilydd.

**Stigma strwythurol canfyddedig:** credoau unigolion am sut mae pobl ar incwm isel yn cael eu trin gan sefydliadau, gwasanaethau cyhoeddus neu lunwyr polisïau.

Mae stigma tlodi yn cynyddu effeithiau materol caledi ac yn ei gwneud yn anos i bobl symud allan o dlodi. Mae ein **gwaith blaenorol ar stigma tlodi** yn dangos bod stigma tlodi yn gysylltiedig ag iechyd meddwl gwael, ynysigrwydd cymdeithasol a llai o ddefnydd o fudd-daliadau a gwasanaethau cefnogi eraill (Morgan et al., 2024). Nid yw hwn yn achos unigryw. Dangosodd **arolwg YouGov** a gomisiynwyd gennym gyda Sefydliad Bevan yn 2024 faint yr her yng Nghymru, â 35% o oedolion ar incwm isel, yn cael ei ddiffinio fel incwm cartref blynyddol is nag £20,000, yn dweud eu bod yn profi stigma tlodi 'bob amser', 'yn aml' neu 'weithiau' (CPCC, 2024).

# Ein proses

Fel y gwelir yn y diagram isod, er mwyn cyd-greu camau seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer newid, daethom â mewnwelediadau a thystiolaeth o brofiad personol, mewnwelediadau proffesiynol, a thystiolaeth academaidd ac ymchwil ryngwladol at ei gilydd.




**Camau seiliedig ar dystiolaeth wedi'u cyd-greu ar gyfer newid**

**Ffigur 2: Mynd i'r afael â stigma tlodi yn Abertawe – ein proses**

Yn gyntaf, fe wnaethom gomisiynu Cydweithfa Pont, ymgynghoriaeth ymchwil, i arwain ymchwil gan gymheiriaid i brofiadau pobl o stigma tlodi yn Abertawe a rôl gwasanaethau cyhoeddus lleol wrth atal, ac ar adegau, wrth gyfrannu tuag at stigma. Bu Cydweithfa Pont yn gweithio gyda thîm o ymchwilwyr cymunedol i wneud ymchwil ansoddol yn Abertawe er mwyn deall sut mae stigma tlodi yn effeithio ar fywydau pobl a pha gamau y gellir eu cymryd i fynd i'r afael ag ef. Rhwng Chwefror a Mai 2025, ar y cyd â Chydweithfa Pont, trefnodd yr ymchwilwyr cymunedol saith grŵp ffocws, gan siarad â 46 o bobl mewn saith gwahanol grŵp cymunedol, a hwyluso dau weithdy â gweithwyr proffesiynol o wasanaethau cyhoeddus lleol yn Abertawe. Mae canfyddiadau manwl yr ymchwil hwn i'w gweld mewn adroddiad cymunedol a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r adroddiad polisi ac ymarfer hwn.

Yn ail, er mwyn defnyddio tystiolaeth academaidd o ‘beth sy’n gweithio’ i fynd i’r afael â stigma tlodi a’i atal, fe wnaethom gomisiynu’r Gynghrair Tlodi ac Uned Ymchwil i Dlodi ac Anghydraddoldeb yr Alban i baratoi adolygiad tystiolaeth cyflym (RER) yn dangos sut mae stigma tlodi wedi cael ei atal yn effeithiol neu sut y mae wedi cael sylw mewn polisi ac ymarfer yn y DU ac yn rhyngwladol. Yn dilyn chwiliad systematig am ymchwil berthnasol, cafodd 23 o bapurau eu cynnwys. Dim ond nifer fach o’r ymyriadau a nodwyd yn yr adolygiad oedd wedi cael eu gwerthuso’n ffurfiol, sy’n golygu bod yr adolygiad yn dibynnu i raddau helaeth ar dystiolaeth a mewnwelediadau yn ymwneud â dulliau gweithredu nad ydynt wedi cael eu hasesu’n drylwyr eto. Er mwyn dod â chanfyddiadau’r adolygiad ac ymchwil cymunedol Abertawe at ei gilydd, fe wnaethom nodi tair thema drosfwaol o’r dystiolaeth ryngwladol:

- Dileu stigma o fynediad at gymorth
- Darparu gwasanaethau ag urddas a pharch
- Newid iaith, diwylliant a systemau

Yn olaf, fe wnaethom geisio rhoi’r dystiolaeth academaidd mewn cyd-destun drwy ei chyfuno â chanfyddiadau’r ymchwil cymunedol er mwyn cael gwell dealltwriaeth o’r goblygiadau ar gyfer polisi ac ymarfer yn Abertawe. Cynaliasom ddau weithdy ym Mehefin a Gorffennaf 2025, gan ddod ag ymchwilwyr cymunedol, llunwyr polisïau ac ymarferwyr yn Abertawe at ei gilydd i archwilio profiadau o stigma tlodi a dechrau nodi llwybrau tuag at greu polisïau a gwasanaethau di-stigma yn Abertawe. Roedd hyn yn cynnwys integreiddio canfyddiadau’r ymchwil cymunedol â thystiolaeth ryngwladol er mwyn nodi ac archwilio camau posibl i fynd i’r afael â stigma tlodi yn Abertawe a thu hwnt.

Yng ngweddill yr adroddiad hwn rydym yn archwilio:

- Canfyddiadau’r ymchwil cymunedol
- Y dystiolaeth academaidd ryngwladol
- Goblygiadau’r ddau ar gyfer polisi ac ymarfer yn Abertawe a thu hwnt





# Canfyddiadau'r ymchwil cymunedol

Canfu'r ymchwil cymunedol fod stigma tlodi yn effeithio ar fywydau bob dydd pobl sy'n profi tlodi yn Abertawe drwy systemau, mannau a pherthnasoedd. Mae rhai o'r prif ganfyddiadau yn cynnwys y canlynol:

**Gall profiadau cynnar gael effaith barhaol:** Gall plant sy'n profi stigma sy'n gysylltiedig â thlodi, er enghraifft drwy gael prydau ysgol am ddim neu oherwydd yr esgidiau maen nhw'n eu gwisgo, gario teimladau o gael eu brifo nes byddant yn oedolion. Gall hyn effeithio ar y ffordd maen nhw'n gweld eu hunain drwy gydol eu hoes. Gall profiadau o'r fath gyfrannu at gylchoedd o gywilydd, anawsterau iechyd meddwl ac allgáu cymdeithasol. Gall stigma wedi'i fewnoli hefyd achosi i bobl deimlo cywilydd ynglŷn â chael mynediad at y gymorth y mae ganddynt hawl iddo.

**Pwysau ar deuluoedd:** Mae rhieni'n gweithio'n galed i warchod eu plant rhag stigma tlodi, â chost bersonol yn aml. Er hyn, mae plant weithiau'n deall mwy nag y mae rhieni'n ei sylweddoli, â rhai pobl ifanc yn disgrifio teimladau o euogrwydd ynglŷn ag amgylchiadau eu teulu. Er enghraifft, dywedodd un person ifanc ei fod yn dweud wrth ei rieni, pan nad oedd yn gallu mynd ar dripiau ysgol, 'Dydw i ddim eisiau mynd p'un bynnag' hyd yn oed pan oedd eisiau mynd, er mwyn gwarchod ei rieni rhag euogrwydd a hunan-stigma.

**Gall cyfryngau traddodiadol a chyfryngau cymdeithasol atgyfnerthu teimladau o hunan-stigma:** Gall platfformau ar-lein greu pwysau parhaus i arddangos ffordd o fyw na all llawer o deuluoedd ei fforddio, yn enwedig o gwmpas achlysuron arbennig. Gall y Nadolig ddod â phwysau arbennig pan fydd teuluoedd yn gweld postiadau o 'bawb yn gwisgo dillad nos yr un fath' ac ystafelloedd byw yn 'llawn' anrhegion. Yr un pryd, gall cyfryngau traddodiadol atgyfnerthu stigma drwy bortreadau negyddol o bobl yn byw mewn tlodi. Gall pobl wedyn fewnoli'r stereoteipiau hyn a chymhwyso eu hunain iddynt, gan gyfrannu tuag at hunan-stigma (Inglis et al., 2024).

**Systemau sy'n beio yn hytrach na chefnogi:** Mae stigma tlodi'n dwysáu pan fydd pobl yn cael eu beio am ddewisiadau sy'n cael eu dylanwadu gan dlodi a'r systemau sydd o'u cwmpas. Mae pobl sy'n wynebu maglau cymhelliad gweithio, lle mae ennill mwy o arian yn arwain at lai o fudd-daliadau, weithiau'n cael eu labelu fel diog pan fyddant yn gwneud penderfyniadau rhesymegol er mwyn diogelu eu bywoliaeth.

**Gall defnyddio gwasanaethau deimlo'n dorcalonnus:** Gall banciau bwyd, asesiadau o fudd-daliadau a systemau cymorth eraill deimlo fel ail-fyw trawma, yn enwedig pan mae'n ofynnol i unigolion adrodd am brofiadau personol dro ar ôl tro wrth wahanol wasanaethau. Gall ffurflenni cymhleth, asesiadau a'r disgwyl i ddangos angen tra'n teimlo eich bod yn cael eich barnu am wneud hynny greu cywilydd a lleihau ymdeimlad pobl o deimlo bod gwerth iddynt.

**Stigmas cyfunol:** I rai unigolion, gan gynnwys pobl o wledydd eraill, pobl sydd ag anableddau a phobl sy'n profi hiliaeth, gall stigma tlodi fod yn gysylltiedig â mathau eraill o wahaniaethu. Er enghraifft, gall ceiswyr lloches wynebu stigma tlodi arbennig, gan gynnwys cam-drin hiliol, pan fyddant yn defnyddio talebau teithio dynodedig ar drafnidiaeth gyhoeddus.

Yn ychwanegol at hyn, gall gwasanaethau cyhoeddus sy'n bodoli er mwyn cynorthwyo pobl sydd angen mynediad atynt, mewn gwirionedd wneud stigma tlodi yn waeth. Nodwyd yr un materion gan aelodau o'r gymuned a gweithwyr proffesiynol a oedd yn ymwneud â hi:

- Mae staff rheng flaen yn rheoli mynediad at wasanaethau ac yn penderfynu pwy sy'n haeddu cymorth
- Roedd canfyddiad bod gwahanol amseroedd ymateb ac ansawdd gwasanaeth yn dibynnu ar ble rydych yn byw / pwy ydych chi
- Gall asesiadau ailadroddus ar draws gwasanaethau olygu bod pobl yn gorfod adrodd eu stori drosodd a throsodd
- Gall adeiladau digroeso, gan gynnwys presenoldeb staff diogelwch neu agweddau ar ddyluniad adeilad, greu canfyddiad nad oes croeso i bobl sydd angen mynediad at wasanaethau neu nad ydynt yn cael eu gwerthfawrogi

Mae'r adroddiad cymunedol yn pwysleisio bod y profiadau hyn yn effeithio ar fywyd bob dydd drwy systemau, mannau, ffisegol ac ar-lein, a pherthnasoedd, gan greu rhwystrau sy'n ymestyn ymhell y tu hwnt i gyfyngiadau ariannol yn unig.

Mae'r atebion a nodwyd drwy'r ymchwil cymunedol yn cael eu trafod yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn, gweler 'Dod ag ymchwil cymunedol a thystiolaeth ryngwladol at ei gilydd' (t. 16).






# Beth sy'n gweithio er mwyn mynd i'r afael â stigma tlodi? Tystiolaeth ryngwladol

Fe wnaethom gomisiynu'r Gynghrair Tlodi ac Uned Ymchwil i Dlodi ac Anghydraddoldeb yr Alban (SPIRU) i wneud **adolygiad cyflym o'r dystiolaeth (RER)** gan edrych sut mae stigma tlodi wedi cael ei atal yn effeithiol neu wedi cael sylw drwy bolisi ac ymarfer, yn y DU ac yn rhyngwladol (Robertson et al., 2025). Mae prif ganfyddiadau'r adolygiad hwn yn cael eu crynhoi isod mewn cysylltiad â thair thema:

- Dileu stigma o fynediad at gymorth
- Darparu gwasanaethau ag urddas a pharch
- Newid iaith, diwylliant a systemau



# Dileu stigma o fynediad at gymorth


Mae ymdrechion rhyngwladol i ddileu stigma sy'n gysylltiedig â mynediad at gymorth i'r rhai sydd mewn tlodi wedi canolbwyntio ar wneud prosesau'n fwy dirwystr, cyffredinol a sensitif i brofiadau'r rhai sy'n ceisio cymorth.

Un o'r prif ddulliau yw awtomeiddio budd-daliadau a gwasanaethau drwy ddileu neu symleiddio prosesau ymgeisio. Er enghraifft, yn 2017 fe wnaeth Cyngor Dinas Glasgow awtomeiddio'r Grant Dillad Ysgol drwy gysylltu cymhwyster ar gyfer prydau ysgol am ddim. Yn yr un modd, mae'r Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant wedi tynnu sylw at effaith gadarnhaol awtomeiddio prydau ysgol am ddim yn ystod pandemig COVID-19 (Grŵp Trawsbleidiol Llywodraeth yr Alban ar Dlodi, 2023). Mae awtomeiddio, gan gynnwys pasbortio hawliadau, yn lleihau'r angen i unigolion ddangos cymhwyster fwy nag unwaith. Mae hyn yn symleiddio mynediad a hefyd yn lliniaru stigma drwy leihau'r baich o orfod profi hawl (Grŵp Trawsbleidiol Llywodraeth yr Alban ar Dlodi, 2023).

Roedd yr adolygiad hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd mesurau sy'n osgoi cyfeirio'n benodol at bobl sy'n profi tlodi neu eu gwahaniaethu. Mae llawer o'r dystiolaeth hon yn dod o arferion mewn ysgolion. Mae rhaglenni sy'n cael eu rhedeg gan y Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant, megis Cost y Diwrnod Ysgol, a hefyd gan Children North East, megis Diogelu rhag Tlodi yn ystod y Diwrnod Ysgol, yn dangos sut mae cynlluniau, gan gynnwys darparu brecwast i bawb, gwisgoedd ysgol mewn argyfwng neu wedi'u hailgylchu a lleihau costau sy'n gysylltiedig ag ysgol i bob disgybl, er enghraifft dillad a thripiau ysgol, yn ei gwneud hi'n llai tebygol bod disgyblion sydd dan anfantais yn cael eu dewis a'u dethol yn benodol neu eu cau allan (Mazzoli-Smith a Todd, 2016; Laing et al., 2023). Dull arall o osgoi dewis a dethol pobl yn benodol ar gyfer triniaeth arbennig yw darparu gwasanaethau a chymorth i bawb. Mae darpariaeth i bawb yn normaleiddio mynediad, gan wneud cymorth yn llai amlwg fel cymorth wedi'i dargedu ac o ganlyniad yn achosi llai o stigma. Mewn adolygiad o dystiolaeth genedlaethol a rhyngwladol yn ymwneud â phrydau ysgol am ddim i bawb, canfu James (2024) fod darpariaeth i bawb yn gallu lleihau stigma drwy ddileu'r cysylltiad â llesiant yn seiliedig ar brawf modd.

Mae tystiolaeth hefyd bod **cydleoli gwasanaethau** yn gallu helpu i leihau stigma tlodi. Er enghraifft, canfu un astudiaeth, pan fydd mynediad at gymorth yn cael ei hwyluso drwy berthnasoedd dibynadwy sy'n bodoli'n barod, megis atgyfeiriadau gan feddygon teulu neu wasanaethau sydd wedi'u hymwreiddio mewn timau iechyd meddwl neu waith cymdeithasol, fod unigolion yn dweud eu bod yn teimlo llai o stigma a'u bod yn profi mwy o ymdeimlad o hunan-werth (Carrick et al., 2017).



# Darparu gwasanaethau ag urddas a pharch

Mae darparu cymorth mewn ffyrdd sy'n cynnal urddas a pharch yn ganolog i fynd i'r afael â stigma tlodi a'i leihau.

Mae'r adolygiad yn tynnu sylw at werth ymwreiddio **dulliau arian yn gyntaf** mewn prosesau darparu gwasanaeth. Mae'r dulliau hyn yn cael eu nodi fel mecanwaith allweddol er mwyn cynnal urddas a pharch drwy alluogi unigolion i wneud penderfyniadau sy'n diwallu anghenion eu haelwydydd a'u teuluoedd yn y ffordd orau posibl (Grŵp Trawsbleidiol Llywodraeth yr Alban ar Dlodi, 2023). Mae dulliau arian yn gyntaf yn canolbwyntio ar gynyddu incwm aelwydydd, er enghraifft drwy sicrhau mynediad at fudd-daliadau digonol neu ehangu mynediad at y Cyflog Byw, yn ogystal â darparu taliadau ariannol uniongyrchol fel dewis arall yn lle cymorth mewn nwyddau megis parseli bwyd neu dalebau (Cyngor Dinas Birmingham, dim dyddiad; Rhwydwaith Cymorth Bwyd Annibynnol, dim dyddiad).

Y tu hwnt i gymorth ariannol, dylai gwasanaethau gael eu dylunio o amgylch **egwyddorion urddas, empathi a pharch**, gan sicrhau bod y rhai sy'n derbyn yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi yn hytrach na'u barnu (Grŵp Trawsbleidiol Llywodraeth yr Alban ar Dlodi, 2023). Mae tystiolaeth o gynlluniau cymunedol yn dangos bod y ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu cyflwyno a'u darparu yn gallu dylanwadu'n fawr ar y profiad ohonynt. Er enghraifft, drwy ddylunio cyfleusterau i fod yn debyg i fannau cymunedol yn hytrach na banciau bwyd traddodiadol, fe wnaeth canolfan fwyd annibynnol yng ngogledd-ddwyrain Lloegr helpu i normaleiddio mynediad at gymorth (Brennan-Tovey et al., 2023). Roedd pwysleisio buddion amgylcheddol, megis lleihau gwastraff bwyd, hefyd yn portreadu'r gwasanaeth fel ymdrech gadarnhaol ar y cyd yn hytrach nag ymyriad elusennol (Brennan-Tovey et al., 2023). Yn yr un modd, canfu Brennan-Tovey et al. (2023) a Ranta et al. (2024) fod awyrgylch croesawus a chyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol mewn canolfannau bwyd ac archfarchnadoedd cymdeithasol yn gallu meithrin urddas a pharch. Canfu Carrick et al. (2017), mewn adolygiad o effaith lleihau stigma cydleoli gweithwyr cynghori a gwasanaethau mewn practisau meddygon teulu yn yr Alban, fod gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan gynghorwyr diragfarn yn helpu unigolion i deimlo llai o stigma a theimlo ymdeimlad cryfach o hunan-werth.










## Newid iaith, diwylliant a systemau

Er mwyn mynd i'r afael â stigma tlodi mae angen newidiadau i'r ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu dylunio a'u darparu, a newidiadau ehangach mewn iaith, diwylliant cyfundrefnol a systemau sefydliadau. Elfen allweddol o hyn yw **ymgysylltu ystyrlon â phobl sydd â phrofiad personol o dlodi** er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n ystyried sut mae eu cynnig yn cael ei dderbyn a'i brofi (Grŵp Trawsbleidiol Llywodraeth yr Alban ar Dlodi, 2023).

Mae hefyd yn bwysig newid y ffordd y mae tlodi a chymorth yn cael eu cyfathrebu drwy **hyrwyddo iaith a naratifau amgen, nad ydynt yn stigmateiddio**. Mae mabwysiadu dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau, er enghraifft cydnabod mynediad at dai fforddiadwy fel un o'r hawliau dynol, yn portreadu cymorth fel hawl yn hytrach na gweithred elusennol (Ejiogu a Denedo, 2021). Mae tystiolaeth yn awgrymu y gall hyd yn oed newidiadau cymharol fach mewn iaith gael effeithiau arwyddocaol. Canfu astudiaeth yn yr Unol Daleithiau a oedd yn edrych ar raglen cymorth i rentu fod newid dulliau cyfathrebu i roi pwyslais ar degwch a chynhwysiant yn arwain at gynnydd o 36% mewn ymgysylltiad a chynnydd o 18% mewn ceisiadau (Lasky-Fink a Linos, 2023). Mewn ysgolion, mae rhaglen 'Diogelu Rhag Tlodi yn ystod y Diwrnod Ysgol' Children North East yn annog athrawon i osgoi costau neu ddyledion gyda disgyblion ac i beidio ag anfon gohebiaeth sy'n gysylltiedig â dyledion gartref gyda disgyblion, a thrwy hynny'n lleihau arferion sy'n stigmateiddio (Mazzoli-Smith a Todd, 2016).

Er mwyn cynnal y newidiadau hyn mae angen **mwy o ymwybyddiaeth a hyfforddiant** ymhlith gweithwyr proffesiynol ac ymarferwyr. Dylai addysg a datblygiad proffesiynol parhaus hybu empathi, herio tybiaethau ynglŷn â thlodi ac annog ymarfer adfyfyriol. Dangoswyd bod ymarferion efelychu tlodi a dysgu sy'n seiliedig ar achosion, yn cael ei ddarparu drwy gynnwys pobl sydd â phrofiad personol, yn gallu cynyddu dealltwriaeth a thosturi a lleihau agweddau negyddol ymhlith ymarferwyr (Beddoe a Keddell, 2016; Murray et al., 2022). Mae adeiladu'r ymwybyddiaeth hwn ymhlith staff rheng flaen a llunwyr polisïau yn cryfhau capasiti systemau a gwasanaethau i ddarparu cymorth ag urddas a pharch.

# Dod ag ymchwil cymunedol a thystiolaeth ryngwladol at ei gilydd

Ym mis Mehefin 2025 fe wnaethom gynnal dau weithdy yn Abertawe i archwilio canfyddiadau'r ymchwil lleol a gynhaliwyd gan yr ymchwilwyr cymunedol mewn deialog â'r dystiolaeth ryngwladol, er mwyn cyd-greu camau seiliedig ar dystiolaeth i fynd i'r afael â stigma tlodi yn Abertawe. Roedd y gweithdai'n dod â phobl â phrofiad personol, ymarferwyr a phobl sy'n gwneud penderfyniadau yn lleol at ei gilydd i ddatblygu dulliau gweithredu ymarferol ar y cyd, a'r rheini'n ddulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, er mwyn mynd i'r afael â stigma tlodi yn Abertawe. Cynlluniwyd y gweithdai er mwyn adeiladu y naill ar y llall (Ffigur 3).

**Gweithdy 1**

- Dod â phobl sydd â phrofiad personol, gwasanaethau rheng flaen a phobl sy'n gwneud penderfyniadau yn lleol at ei gilydd
- Rhannu ac adfyfyrio ar ganfyddiadau'r ymchwil cymunedol i brofiad personol o stigma tlodi yn Abertawe
- Defnyddio canfyddiadau'r ymchwil cymunedol i greu gweledigaeth gyffredin o wasanaethau di-stigma yn Abertawe, cyd-ddatblygu 'map ffordd' (Ffigur 1) i'n helpu i benderfynu sut i gyflawni hyn
- Cynhyrchu rhestr gychwynnol o gamau gweithredu y gellir eu cymryd er mwyn mynd i'r afael â stigma tlodi yn Abertawe

**Gweithdy 2**

- Adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd yng Ngweithdy 1 drwy ddod â'r ymchwil cymunedol a thystiolaeth ryngwladol ynglŷn â 'beth sy'n gweithio er mwyn mynd i'r afael â stigma tlodi' at ei gilydd
- Defnyddio'r dystiolaeth gyfunol i ddatblygu rhestr o gamau ymarferol y gall gwasanaethau cyhoeddus yn Abertawe eu cymryd er mwyn mynd i'r afael â stigma tlodi
- Defnyddio ymarfer sgorio grŵp i flaenoriaethu camau ac atebion
- Gwerthuso ymyriadau posibl sy'n gysylltiedig â'r camau a flaenoriaethwyd, gan ystyried beth fyddai ei angen er mwyn galluogi a gweithredu pob un

**Ffigur 2: Trosolwg o'r gweithdai**

## *Rhannu canfyddiadau a chreu gweledigaeth a rennir ar gyfer gwasanaethau di-stigma yn Abertawe (Gweithdy 1)*

Roedd Gweithdy 1, a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2025, yn gyfle i lunwyr polisïau ac ymarferwyr Abertawe a'r ymchwilwyr cymunedol ddod at ei gilydd i glywed canfyddiadau'r ymchwil i brofiad personol o stigma tlodi yn Abertawe a rôl gwasanaethau lleol er mwyn atal stigma a mynd i'r afael ag ef. Ar ôl clywed y canfyddiadau hyn, bu'r cyfranogwyr yn archwilio sut y gall polisi a gwasanaethau cyhoeddus yn Abertawe atal a mynd i'r afael â stigma tlodi, gan gyd-greu map ffordd 'tri gorwel' er mwyn cyflawni hyn (Ffigur 3).

Wrth ddatblygu'r map ffordd, defnyddiodd y cyfranogwyr ganfyddiadau'r ymchwil cymunedol a'u profiadau a'u myfyrdodau eu hunain. Rhanasant eu barn am:

1. Y sefyllfa bresennol yn Abertawe o ran stigma tlodi
2. Eu gweledigaeth a ffefrir ar gyfer Abertawe ddi-stigma
3. Elfennau o wasanaethau y dylid eu dileu'n raddol er mwyn lleihau stigma
4. Elfennau o'r ddarpariaeth bresennol y dylid eu cadw
5. Hadau newid sy'n bresennol yn barod y gellid eu cryfhau a'u hehangu
6. Newidiadau sydd eu hangen er mwyn symud tuag at y dyfodol a ffefrir, sef gwasanaethau di-stigma yn Abertawe.

Gan fyfyrio ar ganfyddiadau'r ymchwil, ochr yn ochr â'u gwybodaeth eu hunain o'r polisi a'r ymarfer presennol, nododd y cyfranogwyr heriau ac enghreifftiau o arferion da sy'n dod i'r amlwg. Roedd canfyddiad y gall gwasanaethau deimlo'n dameidiog ac yn anodd i lywio o'u cwmpas:

- Teimlai'r cyfranogwyr y byddai llawer o'r staff rheng flaen yn elwa o hyfforddiant mewn ymwybyddiaeth o dlodi;
- Gall unigolion sy'n ceisio cael mynediad at wasanaethau weithiau deimlo eu bod yn cael eu beio neu eu barnu oherwydd eu hamgylchiadau; a
- Gall gwybodaeth a ddarperir gan wasanaethau fod yn rhy gymhleth, a gall asesiadau ailadroddus orfodi defnyddwyr gwasanaeth i ail-fyw trawma.

Wrth ddatblygu eu gweledigaeth a ffefrir ar gyfer gwasanaethau di-stigma yn Abertawe, disgrifiodd y cyfranogwyr awydd am wasanaethau sy'n deg, yn gynhwysol ac yn ystyriol o drawma, yn adlewyrchu diwylliant o empathi a thosturi. Roedd y weledigaeth hon yn seiliedig ar newid mewn dealltwriaeth gyhoeddus o dlodi, gan symud oddi wrth feio unigolion tuag at fwy o ymwybyddiaeth o ffactorau strwythurol a systemig.

Er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon, nododd y cyfranogwyr ystod o gamau pontio y byddai angen eu gweithredu. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Cynnwys arbenigwyr drwy brofiad yn y gwaith o gynllunio a darparu gwasanaethau;
- Hyfforddiant gorfodol ar ymwybyddiaeth o dlodi i staff rheng flaen a staff ehangach y sector cyhoeddus;
- Symleiddio ac addasu iaith a chyfathrebiadau; a
- Buddsoddi mewn gwydnwch cymunedol a chapasiti lleol.




Ffigur 4: Creu ein pap tri gorwel

Dywedodd y cyfranogwyr hefyd fod enghreifftiau yn barod o arferion cadarnhaol yn Abertawe a allai gefnogi'r pontio hwn. Mae'r rhain yn cynnwys modelau cymunedol megis Canolfan y Ffenics, sy'n hwb cymunedol arloesol yng nghanol Townhill, oergelloedd cymunedol, cydweithio ar draws rhai gwasanaethau, a datblygu dulliau gweithredu sy'n ystyriol o drawma.

## *Dod â thystiolaeth ryngwladol a mewnwelediadau lleol at ei gilydd (Gweithdy 2)*

Roedd Gweithdy 2, a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2025, yn adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd o Weithdy 1 ynglŷn â stigma tlodi yn Abertawe. Roedd yn dwyn ynghyd yr ymchwil cymunedol i brofiad personol o dlodi yn Abertawe a thystiolaeth academaidd ryngwladol, sy'n cael ei chrynhoi ar t. X, ynglŷn â beth sy'n gweithio er mwyn atal a mynd i'r afael â stigma tlodi. Trefnwyd y dystiolaeth ryngwladol (RER) a'r syniadau ar gyfer gweithredu a gynhyrchwyd yng Ngweithdy 1, a amlinellwyd yn Atodiad 1, dan dair thema:

- Dileu stigma o fynediad at gymorth
- Darparu gwasanaethau ag urddas a pharch
- Newid iaith, diwylliant a systemau

Gwahoddwyd y cyfranogwyr i fyfyrio ar y canfyddiadau academaidd a'r syniadau ar gyfer gweithredu a gynhyrchwyd yng Ngweithdy 1, ac i awgrymu unrhyw gamau ychwanegol y gellid eu cymryd er mwyn mynd i'r afael â stigma tlodi yn Abertawe, gweler Tablau 2, 3 a 4 yn Atodiad 1. Yna blaenoriaethodd y cyfranogwyr y camau gweithredu drwy adolygu'r rhestr lawn o syniadau a gynigiwyd a phleidleisio dros yr opsiynau roedden nhw'n eu hystyried fel y rhai pwysicaf i fwrw ymlaen â hwy drwy bolisïau a gwasanaethau cyhoeddus yn Abertawe, gweler Tabl 1).



## Tabl 1: Camau blaenoriaeth er mwyn mynd i'r afael â thlodi stigma yn Abertawe

| Thema | Cam Blaenoriaeth | Ffynhonnell |
|---|---|---|
| Dileu stigma o fynediad at gymorth | Gwella rhannu data ar draws adrannau er mwyn symleiddio mynediad a phrosesau cefnogi. | • RER<br>• Ymchwil cymunedol (adroddiad / Gweithdy 1) |
| | Dileu asesiadau ailadroddus drwy integreiddio gwasanaethau a rhannu gwybodaeth. | • RER<br>• Ymchwil cymunedol (adroddiad / Gweithdy 1) |
| | Buddsoddi mewn mannau cymunedol sy'n cynnig nifer o wasanaethau. | • Ymchwil cymunedol (adroddiad / Gweithdy 1) |
| Darparu gwasanaethau ag urddas a pharch | Sefydlu mynediad at hyfforddiant stigma tlodi di-dâl i bob gweithiwr proffesiynol, wedi'i dargedu'n benodol tuag at fynd i'r afael â stigma wrth ddylunio a darparu gwasanaethau. | • RER<br>• Ymchwil cymunedol (adroddiad / Gweithdy 1) |
| | Sicrhau bod gwasanaethau'n gyfleus i bobl sydd angen cael mynediad atynt, er enghraifft drwy gadw opsiynau mynediad ffisegol er mwyn osgoi allgáu digidol. | • Ymchwil cymunedol (adroddiad / Gweithdy 1) |
| | Archwilio am ffyrdd gwell o gefnogi'r grwpiau sydd fwyaf tebygol o brofi stigma tlodi, fel ceiswyr lloches a ffoaduriaid, sy'n aml heb waith. | • Ymchwil cymunedol (adroddiad / Gweithdy 1) |
| Newid iaith, diwylliant a systemau | Cynyddu rhan pobl sydd â phrofiad personol yn y broses o ddylunio, darparu a gwerthuso gwasanaethau | • RER<br>• Ymchwil cymunedol (adroddiad / Gweithdy 1) |
| | Symleiddio ac ailystyried iaith mewn cyfathrebiadau, gan gynnwys ffurflenni a llythyrau swyddogol | • RER<br>• Ymchwil cymunedol (adroddiad / Gweithdy 1) |

Mae rhagor o fanylion am drafodaethau'r cyfranogwyr ynglŷn â'u camau gweithredu arfaethedig, a sut y gallai gweithredu edrych yn ymarferol yn Abertawe, i'w gweld isod yn yr adran 'Llwybrau gweithredu'.

# Llwybrau gweithredu

Yn y ddau weithdy, bu'r cyfranogwyr yn defnyddio canfyddiadau'r ymchwil cymunedol lleol, mewn deialog â'r dystiolaeth ryngwladol, er mwyn cynhyrchu syniadau ar gyfer camau gweithredu i atal a mynd i'r afael â stigma tlodi yn Abertawe. Fel rhan o'r ail weithdy, fe wnaethon nhw flaenoriaethu dau neu dri syniad o'u rhestr hir yn erbyn y tair thema, sef dileu stigma o fynediad at gymorth, darparu gwasanaethau ag urddas a pharch, a newid naratifau, diwylliant a systemau.

Yn ystod gweddill y gweithdy, canolbwyntiodd y cyfranogwyr ar y syniadau hyn a gafodd eu blaenoriaethu er mwyn archwilio beth fyddai'n ofynnol er mwyn eu gwneud yn realiti yn Abertawe. Amlinellir canlyniadau'r gwaith hwn isod.



# Dileu stigma o fynediad at gymorth

## Gwella rhannu data ar draws gwasanaethau ac adrannau er mwyn symleiddio prosesau mynediad

Nododd y cyfranogwyr y byddai galluogi gwasanaethau i rannu gwybodaeth yn fwy effeithiol yn lleihau'r angen i unigolion ailadrodd yr un wybodaeth ac yn caniatáu mynediad mwy dirwystr at gymorth. Mae'r ymchwil cymunedol a'r dystiolaeth ryngwladol yn nodi bod asesiadau sy'n cael eu hailadrodd yn gallu teimlo'n ddiangen ac yn ddiraddiol, yn enwedig pan nad yw amgylchiadau defnyddiwr gwasanaeth wedi newid. Gallai galluogi adrannau i rannu gwybodaeth, er enghraifft awtomeiddio cymhwyster am gymorth ar sail data a cheisiadau sy'n bodoli'n barod, leihau'r straen a'r aildrawmateiddio sy'n gysylltiedig ag ailadrodd asesiadau. Byddai mwy o integreiddio gwasanaethau, creu dull gweithredu dim drws anghywir, yn golygu bod pobl yn cael eu credu unwaith yn hytrach na bod angen iddynt brofi eu hamgylchiadau dro ar ôl tro. Mae hyn yn gyson â bwriadau Siarter Budd-daliadau Cymru, sy'n ceisio hwyluso rhannu data er budd y cyhoedd a sefydlu un pwynt mynediad ar gyfer budd-daliadau yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2024b).

Er hyn, mae nifer o ystyriaethau i roi sylw iddynt, gan gynnwys diogelu data a gofynion preifatrwydd, yr angen i gadw cofnodion cywir, a gwrthwynebiad posibl gan adrannau sydd ag arferion gwaith sefydledig. Byddai meithrin ymddiriedaeth a chydweithrediad ar draws adrannau hefyd yn hanfodol er mwyn gallu rhannu gwybodaeth yn effeithiol.












Yn ôl y cyfranogwyr, er mwyn gwella dulliau rhannu data a symleiddio prosesau byddai angen:

- Cynnal ymchwil i asesu awydd o fewn y sefydliad i integreiddio a nodi rhwystrau
- Cydnabod ei bod yn bosibl nad oes angen ailasesiad blynyddol o wybodaeth ffeithiol greiddiol nad yw'n newid yn aml, a symud i gylchoedd asesu hwy, er enghraifft bob pum mlynedd mewn amgylchiadau sefydlog, lle bo'n briodol
- Sefydlu protocolau clir er mwyn atal camddefnyddio data tra'n galluogi dulliau priodol o rannu gwybodaeth
- Archwilio'r systemau presennol er mwyn nodi bylchau o ran cydweddoldeb a mapio cyfleoedd ar gyfer integreiddio ar draws gwasanaethau
- Nodi'r prif wasanaethau i'w blaenoriaethu ar gyfer integreiddio cychwynnol, gan gynnwys budd-daliadau tai, prydau ysgol am ddim, lleihau treth gyngor, Bathodyn Glas, taliadau tai dewisol, talebau banc bwyd a gwasanaethau cymdeithasol
- Ffurfweddu systemau er mwyn cyfathrebu'n ddiogel a gweithredu mecanweithiau cydsyniad priodol
- Creu systemau sy'n caniatáu i weithwyr proffesiynol gael mynediad at wybodaeth berthnasol a chyfredol am breswylwyr â mesurau diogelu priodol
- Sicrhau adnoddau ariannol ar gyfer hyfforddiant staff ar draws adrannau
- Sicrhau ymrwymiad gwleidyddol ac ymrwymiad gan randdeiliaid ar lefel arweinyddiaeth er mwyn sicrhau gweithrediad

Dileu stigma o fynediad at gymorth

## Buddsoddi mewn mannau cymunedol sy'n cynnig nifer o wasanaethau

Nododd y cyfranogwyr y gallai creu mannau cymunedol "siop un stop" leihau rhwystrau'n sylweddol a chynyddu hygyrchedd drwy ddod â gwasanaethau i leoliadau lle mae cymunedau'n dod at ei gilydd yn barod. Mae hyn yn adlewyrchu modelau llwyddiannus fel Canolfan y Ffenics, ac mewn egwyddor, fentrau sy'n dod i'r amlwg megis Y Storfa[1]. Roedd y cyfranogwyr yn cydnabod bod angen mwy na chydleoli er mwyn cynnal nifer o wasanaethau mewn un lle. Mae angen integreiddio go iawn, rhannu data effeithiol a chysoni amcanion gwasanaethau. Mae'r ystyriaethau allweddol yn cynnwys cynnal ansawdd gwasanaeth pan fydd nifer o ddarparwyr yn gweithredu yn yr un lle a sicrhau cyllid cynaliadwy ar gyfer buddsoddiad cyfalaf a chostau refeniw rheolaidd.

Nododd y cyfranogwyr y byddai angen y canlynol er mwyn buddsoddi mewn mannau cymunedol amlwasanaeth:

- Cydgynhyrchu manylebau gwasanaeth manwl gyda phartneriaid awdurdodau lleol, partneriaid iechyd a chynrychiolwyr cymunedol er mwyn pennu pa wasanaethau sydd eu hangen fwyaf a pha rai yw'r rhai mwyaf priodol ar gyfer cydleoli
- Ymgysylltu â'r cyhoedd er mwyn deall beth mae ar gymunedau ei eisiau gan fannau a rennir a lle byddent yn fwyaf hygyrch
- Nodi a sicrhau safleoedd addas, gan ystyried hygyrchedd, cysylltiadau trafnidiaeth a lefelau ymddiriedolaeth gymunedol
- Datblygu achosion busnes cryf a sicrhau cyllid cyfalaf, er enghraifft drwy gyllid Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, ochr yn ochr â chyllid refeniw cynaliadwy
- Adeiladu ar fentrau sy'n bodoli'n barod, fel Y Storfa, a agorodd ym mis Rhagfyr 2025, fel prawf o gysyniad ac archwilio cydleoli gydag ysgolion a lleoliadau cymunedol eraill
- Comisiynu partneriaid profiadol â hanes o ymwneud â darparu gwasanaethau yn cael eu harwain gan y gymuned

1 Y Storfa: 'Canolfan gwasanaethau cymunedol amlbwrpas newydd sy'n hyrwyddo cydlyniant cymunedol, cyfleoedd ar gyfer hunanddatblygiad a thwf, cynhwysiant digidol, lles, undod a chryfder ar draws cymunedau amrywiol Abertawe' (Cyngor Abertawe, 2025, para. 6).

# Darparu gwasanaethau ag urddas a pharch

## Sefydlu mynediad at hyfforddiant stigma tlodi di-dâl i bawb, wedi'i dargedu'n benodol at wasanaethau cyhoeddus

Gallai sefydlu mynediad at hyfforddiant stigma tlodi di-dâl i bawb, sydd o safon uchel, gan gynnwys dealltwriaeth gydol oes , ac sydd wedi'i dargedu tuag at fynd i'r afael â stigma wrth ddylunio a darparu gwasanaeth, gynorthwyo staff rheng flaen i adnabod a herio rhagfarn a hybu rhyngweithio parchus. Byddai'r hyfforddiant hwn yn canolbwyntio ar gymhwyso ymarferol wrth ddarparu gwasanaeth yn hytrach na'r hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth cyffredinol. Pwysleisiodd y cyfranogwyr y byddai hyfforddiant o'r fath, yn gyson â'r dystiolaeth ryngwladol, yn helpu staff i ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach o brofiadau bywyd pobl a chodi ymwybyddiaeth o dlodi a stigma ar draws gwasanaethau cyhoeddus. Gallai hefyd greu lle ar gyfer newid o fynnu prawf perfformiadol o angen tuag at wrando ar bobl sy'n defnyddio gwasanaethau a'u credu. Byddai hyn, yn ei dro, yn helpu i ddileu rhwystrau a hybu defnydd o gefnogaeth.

Nododd y cyfranogwyr nifer o risgiau y byddai angen eu rheoli, gan gynnwys y potensial i hyfforddiant fynd yn symbolaidd neu'n ymarfer ticio bocsys, gan osgoi 'twristiaeth tlodi' sy'n gwneud stori fawr o brofiad personol, gan sicrhau bod staff yn ymgysylltu'n ystyrlon ac yn deall bod yr hyfforddiant yn orfodol yn hytrach na dewisol, a chynnal cysondeb a pherthnasedd ar draws timau ac adrannau.

Er mwyn sefydlu mynediad at hyfforddiant stigma tlodi di-dâl am ddim, cynigiodd y cyfranogwyr:

- Comisiynu arbenigwyr drwy brofiad i ddarparu gwybodaeth ar gyfer cynllunio hyfforddiant, gan gynnwys cytuno ar amcanion clir yn ymwneud â'r newid ymddygiad a ddisgwylir)
- Adolygu a defnyddio modelau hyfforddi sefydledig, sy'n seiliedig ar dystiolaeth
- Comisiynu pobl sydd â phrofiad personol o dlodi i gydhwyluso a darparu hyfforddiant
- Casglu adborth strwythuredig gan staff yn dilyn hyfforddiant i asesu dealltwriaeth a newid ymddygiad
- Cyfathrebu'n glir bod hyfforddiant ymwybyddiaeth o dlodi a stigma yn orfodol ac yn berthnasol i bawb, ac nid staff rheng flaen yn unig
- Adeiladu mecanweithiau i fonitro gweithrediad a newidiadau mewn arferion gwasanaeth ar ôl hyfforddiant

2 Mae dull gweithredu gydol oes yn cydnabod 'bod ystod eang o ffactorau amddiffynnol a ffactorau risg sy'n cydadweithio mewn iechyd a llesiant drwy gydol oes' (GOV.UK, 2019, para. 7)

**Darparu gwasanaethau ag urddas a pharch**

## Sicrhau bod gwasanaethau'n gyfleus i'r rhai sydd angen mynediad atynt, gan gynnwys darparu cymorth wyneb yn wyneb er mwyn atal allgáu digidol

Nododd y cyfranogwyr y byddai creu amgylcheddau ffisegol mwy agored a chroesawus i bobl sy'n ceisio cymorth, tra'n sicrhau bod opsiynau mynediad wyneb yn wyneb yn cael eu darparu ochr yn ochr â gwasanaethau digidol, yn cynyddu hygyrchedd a defnydd o wasanaethau yn sylweddol. Mae'r dull gweithredu hwn yn cydnabod nad oes gan bawb fynediad dibynadwy at dechnoleg ddigidol na'r hyder i ddefnyddio gwasanaethau ar-lein, a bod cymorth wyneb yn wyneb yn gallu cyfathrebu negeseuon pwysig yn ymwneud ag a yw pobl yn cael eu gwerthfawrogi a'u croesawu.

Cyfeiriodd y cyfranogwyr at risgiau posibl, gan gynnwys y gofynion sylweddol o ran adnoddau a chapasiti er mwyn darparu mwy nag un opsiwn mynediad, y posibilrwydd o greu neu ehangu anghydraddoldeb os yw gweithredu'n amrywio o ardal i ardal neu os dim ond rhai gwasanaethau sy'n darparu opsiynau wyneb yn wyneb, yr angen am newid diwylliannol ehangach yn y ffordd y mae gwasanaethau'n deall hygyrchedd, a'r angen am seilwaith cefnogol megis parcio hygyrch a goleuadau diogel. Byddai angen ystyried cynaliadwyedd hirdymor y tu hwnt i'r camau peilot hefyd.

Er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n gyfleus ac yn hygyrch, argymhellodd y cyfranogwyr y dylid:

- Cynnal archwiliad manwl o'r amgylcheddau gwasanaeth ffisegol presennol er mwyn nodi rhwystrau a chyfleoedd i wella
- Cydgynhyrchu atebion gyda staff, defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid cymunedol er mwyn dylunio amgylcheddau sy'n gwirioneddol ddiwallu anghenion
- Dylunio systemau sy'n cyfuno opsiynau wyneb yn wyneb ac opsiynau annigidol eraill ochr yn ochr â darpariaeth ddigidol, gan sicrhau nad yw unrhyw unigolyn neu grŵp dan anfantais
- Tynnu staff diogelwch o adeiladau gwasanaeth lle nad yw hyn yn hanfodol ar gyfer diogelwch
- Buddsoddi mewn hyfforddiant staff er mwyn helpu i ddarparu gwasanaethau ag urddas a pharch, ochr yn ochr ag ymdrechion i amrywio'r gweithlu
- Sicrhau bod gwasanaethau'n gyfleus o safbwynt ymarferol, gan gynnwys ystyried costau trafnidiaeth, oriau agor a'r apwyntiadau sydd ar gael
- Gweithio gyda chymunedau er mwyn nodi'r asedau a'r amgylcheddau lleol sydd fwyaf tebygol o gyrraedd y rhai a fyddai fel arall yn cael anhawster i gael mynediad at gymorth

Darparu gwasanaethau ag urddas a pharch

## Archwilio am ffyrdd gwell o gefnogi'r grwpiau sydd fwyaf tebygol o brofi stigma tlodi, fel ceiswyr lloches a ffoaduriaid, sy'n aml heb waith

Mae cyfyngiadau cyfreithiol sy’n atal ceiswyr lloches rhag gweithio, a all wthio pobl i dlodi. Mae hyn yn cynrychioli mater polisi systemig na all gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru fynd i’r afael ag ef ar eu pen eu hunain, ond y gallant eiriol ochr yn ochr ag eraill i’w newid. Roedd y cyfranogwyr yn cydnabod y byddai galluogi ceiswyr lloches i weithio yn helpu i leihau stigma tlodi drwy gefnogi annibyniaeth economaidd ac urddas. Gallai hefyd leihau pwysau ar wasanaethau cyhoeddus a gwneud cyfraniad cadarnhaol i’r economi leol.

Nodwyd nifer o rwystrau a oedd yn atal y cam gweithredu hwn, gan gynnwys gwrthwynebiad i newid polisi ar lefel Llywodraeth y DU, canfyddiadau cyhoeddus negyddol a rhethreg wleidyddol yn ymwneud â lloches, y ffaith fod y mater hwn y tu allan i reolaeth uniongyrchol Llywodraeth Cymru a gwasanaethau lleol, ac anhawster cynnal ymgyrchoedd eiriolaeth hirdymor tra’n rheoli gwahanol flaenoriaethau.

Er nad oes gan lywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus lawer o ddylanwad uniongyrchol, awgrymodd y cyfranogwyr y gallai gweithredu ar y cyd yn y gymuned gynnwys:

- Nodi llunwyr polisi perthnasol, pobl sy’n gwneud penderfyniadau ac eiriolwyr dylanwadol ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol
- Ymchwilio, casglu a dogfennu astudiaethau achos cryf sy’n dangos effaith cyfyngiadau gwaith ar unigolion a theuluoedd
- Trefnu fforymau cymunedol sy’n gwahodd llunwyr polisïau, cynrychiolwyr etholedig ac aelodau o’r gymuned i glywed yn uniongyrchol gan bobl sydd â phrofiad personol
- Sicrhau cyllid ymgyrchu dynodedig ac adeiladu partneriaethau gyda sefydliadau eiriolaeth sydd â phrofiad o newid polisïau
- Datblygu argymhellion seiliedig ar dystiolaeth sy’n dangos buddion economaidd a chymdeithasol diwygio

# Newid iaith, diwylliant a systemau

## Cynnwys pobl sydd â phrofiad personol wrth ddylunio, cynllunio a gwerthuso gwasanaethau

Awgrymodd y cyfranogwyr y byddai cael pobl sydd â phrofiad personol i ymwneud mwy â'r gwaith o gynllunio a dylunio gwasanaethau yn helpu i sicrhau bod polisïau a darpariaeth yn adlewyrchu anghenion pobl yn well ac nad ydynt yn anfwriadol yn atgyfnerthu stigma tlodi. Roedd mewnwelediad profiad personol dilys yn cael ei ystyried yn hanfodol er mwyn dylunio gwasanaethau o amgylch realiti'r rhai sy'n eu defnyddio, yn gyson â **Strategaeth Gyd-gynhyrchu** Cyngor Abertawe. Gallai'r dull gweithredu hwn wella perthnasedd gwasanaethau, darparu mewnwelediad cadarn i'r heriau y mae pobl yn eu hwynebu a lleihau'r risg o broblemau gweithredu yn deillio o ddiffyg profiad personol.

Cyfeiriodd y cyfranogwyr at nifer o risgiau i'r dull gweithredu hwn y byddai angen eu rheoli. Mae'r rhain yn cynnwys symboleiddiaeth, lle gwahoddir pobl i gyfrannu ond nad oes unrhyw weithredu ar eu mewnbwn; anghydbwysedd pŵer rhwng gweithwyr proffesiynol a phobl sydd â phrofiad personol; risg o aildrawmateiddio os gofynnir i unigolion adrodd am brofiadau anodd fwy nag unwaith heb gefnogaeth ddigonol; gwrthwynebiad sefydliadol i gyd-ddylunio go iawn; a'r potensial ar gyfer disgwyliadau uwch na ellir eu cyflawni. Pwysleisiwyd pwysigrwydd tâl a chydnabyddiaeth briodol am amser ac arbenigedd pobl hefyd.

Er mwyn annog a chefnogi cynnwys pobl â phrofiad personol mewn ffordd ystyrlon yn y gwaith o ddylunio a chynllunio gwasanaethau, argymhellodd y cyfranogwyr y dylid:

- Talu'n briodol i bobl â phrofiad personol am eu cyfraniadau, yn hytrach na dibynnu ar gyfraniadau gwirfoddol neu ran-daliadau
- Rhedeg prosiectau peilot ar raddfa fach gyda chymunedau amrywiol er mwyn profi gwahanol ddulliau cyd-ddylunio
- Defnyddio nifer o ddulliau ymgysylltu, gan gynnwys holiaduron, fforymau, digwyddiadau gwrando ar y gymuned a grwpiau cyd-ddylunio ffurfiol, er mwyn cyrraedd ystod eang o gyfranogwyr
- Datblygu fframwaith clir ar gyfer cyd-ddylunio sy'n diffinio rolau, awdurdod gwneud penderfyniadau ac atebolrwydd
- Sicrhau cymeradwyaeth i gyllidebau a pholisïau er mwyn ymwreiddio dulliau cyd-gynhyrchu
- Adeiladu perthnasoedd ac ymddiriedaeth dros gyfnod, gan gydnabod bod cyd-ddylunio effeithiol yn gofyn am ymgysylltu parhaus
- Diweddaru grwpiau ymgysylltu yn rheolaidd er mwyn sicrhau cynrychiolaeth amrywiol ac osgoi gorddibyniaeth ar yr un unigolion
- Sicrhau cynrychiolaeth amrywiol ar draws oedran, cefndir a phrofiadau o dlodi

Newid iaith, diwylliant a systemau

## Sicrhau iaith anfeirniadol a hygyrch

Byddai sicrhau bod iaith mewn cyfathrebiadau swyddogol yn anfeirniadol ac yn hygyrch o fudd i bawb, nid yn unig i bobl ar incwm isel. Gall iaith gliriach a mwy hygyrch helpu i oresgyn rhwystrau ieithyddol, gwella dealltwriaeth a lleihau dryswch. Mae cyfathrebiadau symlach yn llai brawychus i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau a gallant gefnogi mwy o ddefnydd. Dywedodd y cyfranogwyr fod hwn yn faes lle gallai buddsoddiad cymharol fach sicrhau enillion sylweddol o ran hygyrchedd ac urddas.

Er hyn, mae angen rhoi sylw i nifer o risgiau. Mae'r rhain yn cynnwys yr her o symleiddio iaith tra'n dal i gyfleu gwybodaeth gyfreithiol neu dechnegol angenrheidiol. Mae angen sicrhau nad yw symleiddio'n mynd yn rhy nawddoglyd neu'n ymddangos fel pe bai'n bychanu pobl, cynnal cysondeb ar draws gwahanol lythyrau a gwasanaethau, a chydnabod y gallai ambell ohebiaeth fod wedi'i rhagnodi gan gyrff allanol, megis adrannau'r llywodraeth, a allai gyfyngu ar hyblygrwydd lleol.

Awgrymodd y cyfranogwyr y byddai angen gwneud y canlynol er mwyn symleiddio'r iaith:

- Archwilio llythyrau a ffurflenni'r cyngor er mwyn nodi'r rhai sy'n cael eu defnyddio amlaf a'r rhai lle mae'r iaith yn gymhleth iawn
- Adolygu a diwygio cyfathrebiadau yn unol â safonau iaith glir sydd wedi'u sefydlu, er enghraifft canllawiau GOV.UK
- Darparu templedi a chanllawiau clir i staff a chynnig hyfforddiant mewn egwyddorion iaith glir
- Cydgynhyrchu llythyrau a ffurflenni diwygiedig gyda phobl sydd â phrofiad personol er mwyn profi eglurder a hygyrchedd
- Cynnig dewis o ran sut y derbynnir cyfathrebiadau, gan gynnwys e-bost, testun, llythyr, print bras, hawdd ei ddarllen, sain ac ieithoedd eraill
- Lle bo'n briodol, ymgorffori elfennau gweledol megis codau QR sy'n cysylltu i fideos esboniadol neu adnoddau cefnogi
- Osgoi stigmateiddio ciwiau gweledol, megis rhai mathau amlen neu gyflwyniadau rhy ffurfiol a allai arwain at ganlyniadau negyddol
- icrhau bod fersiynau hawdd eu darllen a hygyrch o ddogfennau ar gael yn rhwydd i'r rhai sydd eu hangen

# Casgliad

Mae'r canfyddiadau a gyflwynir yn yr adroddiad polisi ac ymarfer hwn yn seiliedig ar ymchwil cymunedol i brofiad personol o dlodi a stigma tlodi yn Abertawe, tystiolaeth ryngwladol ac arbenigedd ymarferwyr a llunwyr polisïau. Mewn partneriaeth â thîm o ymchwilwyr cymunedol wedi'u lleoli yn Abertawe, daeth y prosiect â llunwyr polisïau lleol, ymarferwyr a phobl sydd â phrofiad personol at ei gilydd i gyd-greu camau gweithredu er mwyn mynd i'r afael â stigma tlodi yn Abertawe. Nodwyd cyfanswm o wyth cam gweithredu blaenoriaeth, yn ogystal â dulliau gweithredu a awgrymwyd ar gyfer gweithredu a chamau nesaf (Tabl 1). Bydd y camau gweithredu hyn yn cael eu hystyried yn awr gan Gyngor Abertawe fel rhan o'i waith parhaus i hybu cynhwysiant, perthyn ac urddas i bobl sy'n profi tlodi a chaledi.

Er bod y mewnwelediadau a gyflwynwyd yma wedi'u seilio yng nghyd-destun Abertawe, maent yn berthnasol at ei gilydd i awdurdodau lleol a gwasanaethau cyhoeddus y tu hwnt i Abertawe.



# Ffynonellau


Beddoe, L. a Keddell, E. (2016). **Informed outrage: tackling shame and stigma in poverty education in social work.** Ethics and Social Welfare, 10(2). 149–162.

Brennan-Tovey, K., Board, E. a Fulton, J. (2023). **Counteracting stigma-power: An ethnographic case study of an independent community food hub.** Journal of Contemporary Ethnography, 52(6). 778-798.

Carrick, K., Burton, K. a Barclay, P. (2017). **Forecast Social Return on Investment Analysis on the Co-location of Advice Workers with Consensual Access to Individual Medical Records in Medical Practices.** Adalwyd o: https://www.improvementservice.org.uk/__data/assets/pdf_file/0023/9167/SROI-co-location-advice-workers.pdf

Carter, I, Hill-Dixon, A. a Roberts, M. (2022). **Poverty and social exclusion in Wales: Review of lived experience evidence.** Adalwyd o: https://www.wcpp.org.uk/wp-content/uploads/2022/09/WCPP-Review-of-lived-experience-evidence-September-2022-English-final-updated.pdf

CPCC. (2024). **Codi'r caead ar stigma tlodi yng Nghymru.** Adalwyd o: https://wcpp.org.uk/cy/report/codir-caead-ar-stigma-tlodi-yng-nghymru/

Cyngor Abertawe. (2025). **Y Storfa – cwestiynau cyffredin.** Adalwyd o: https://www.abertawe.gov.uk/adfywioadeiladystorfa

Cyngor Dinas Birmingham. (dim dyddiad). **Addressing stigma and shame in use of affordable food models and food banks.** Adalwyd o: https://www.birmingham.gov.uk/downloads/file/28176/shame_and_stigma_in_foodbank_use_-_report

Ejiogu, A. a Denedo, M. (2021). **Stigma and Social Housing in England. Durham University Business School.** Adalwyd o: https://thinkhouse.org.uk/site/assets/files/2422/dur0721.pdf

GOV.UK. (2019). **Health matters: Prevention - a life course approach.** Adalwyd o: https://www.gov.uk/government/publications/health-matters-life-course-approach-to-prevention/health-matters-prevention-a-life-course-approach#:~:text=Adopting%20the%20life%20course%20approach,improve%20conditions%20of%20daily%20life.

Inglis, G., McHardy, F., Sosu, E., McAteer, J. a Biggs, H. (2019). **Health inequality implications from a qualitative study of experiences of poverty stigma in Scotland.** Soc Sci Med, 232. 43-49.

Inglis, G., Sosu, E., McHardy, F., Witteveen, I., Jenkins, P. a Knifton, L. (2024). **Testing the associations between poverty stigma and mental health: The role of received stigma and perceived structural stigma.** International Journal of Social Psychiatry, 0(0). doi:10.1177/00207640241296055

James, J. (2024) **Effeithiau Prydau Ysgol am Ddim i Bawb. Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.** Adalwyd o: https://wcpp.org.uk/wp-content/uploads/Adroddiad-Effeithiau-Prydau-Ysgol-am-Ddim-i-Bawb.pdf

Laing, K., Thomas, U., Tiplady, L. a Todd, L. (2023). **UK Cost of the School Day Final Evaluation – Short Report. Child Poverty Action Group.** Adalwyd o: https://cpag.org.uk/sites/default/files/2023-10/UK%20COST%20OF%20THE%20SCHOOL%20DAY%20%20FINAL%20EVALUATION%20Short%20Report.pdf

Lasky-Fink, J. a Linos, E. (2023). **Improving delivery of the social safety net: The role of stigma.** Faculty Research Working Paper Series. Adalwyd o: https://papers.ssrn.com/sol3/papers.cfm?abstract_id=4040234

Llywodraeth Cymru. (2024a). **Strategaeth Tlodi Plant Cymru 2024.** Adalwyd o: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2024-01/strategaeth-tlodi-plant-cymru-2024.pdf

Llywodraeth Cymru. (2024b). **Siarter Budd-daliadau Cymru – Chwefror 2024.** Adalwyd o: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2024-02/siarter-budd-daliadau-cymru.pdf

Llywodraeth yr Alban, Grŵp Trawsbleidiol ar Dlodi. (2023). **An inquiry into poverty stigma in Scotland.** Adalwyd o: https://www.povertyalliance.org/wp-content/uploads/2023/02/Report-of-the-inquiry-into-stigma-CPG-on-Poverty.pdf

Mazzoli-Smith, L. a Todd, L. (2016) **Poverty Proofing the School Day: Evaluation and Development Report.** Prifysgol Newcastle. Adalwyd o: https://www.nasuwt.org.uk/static/e7dc0e21-39a7-4db9-946d4ae3a8f23279/Poverty-proofing-he-School-Day-Evaluation-and-Development-Report.pdf

Morgan, C., Coles-Riley, J. and Hill-Dixon, A. (2024). **Mynd i'r afael â stigmasy'n gysylltiedig â thlodi.** Adalwyd o: https://wcpp.org.uk/wp-content/uploads/Briff-Polisi-Mynd-ir-afael-a-stigma-syn-gysylltiedig-a-thlodi-2-1.pdf

Murray, P. M., Sepulveda, A. a Baird, J. (2022). **Longitudinal impact of a poverty simulation on healthcare practitioners' attitudes towards poverty.** Journal of Pediatric Nursing, 64. 24-30.

Ranta, R., Nancheva, N., Mulrooney, H., Bhakta, D. a Lake, S. (2024). **Access, dignity, and choice: Social supermarkets and the end of the food bank model in the UK?.** Food, Culture & Society, 27(4). 1216-1233.

Ramasut, T., Jenkins, C., Berrell, K., Hopkins, M., Mfortem, T. and Williams, M. (2026). **Understanding and addressing poverty stigma in Swansea: A community-led report for the communities of Swansea.**

Robertson, L., Bowman, N., Wilks, L., McKendrick, J. H. a Sinclair, S. (2025). **What works to tackle and prevent poverty stigma? A rapid evidence review.** Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. Adalwyd o: https://wcpp.org.uk/wp-content/uploads/Adolygiad-tystiolaeth-stigma-tlodi-Chwefror-2026.pdf

Rhwydwaith Cymorth Bwyd Annibynnol. (dim dyddiad). **Taking a cash first approach to food insecurity.** Adalwyd o: https://www.foodaidnetwork.org.uk/why-cash-first

# Atodiad 1: Syniadau ar gyfer gweithredu

### Tabl 2: Meysydd gweithredu a nodwyd mewn cysylltiad â dileu stigma o fynediad at gymorth

| Meysydd gweithredu a nodwyd mewn tystiolaeth ryngwladol | Syniadau ar gyfer newid a nodwyd gan y cyfranogwyr |
|---|---|
| Awtomeiddio mynediad at gymorth neu hawliadau | |
| Ehangu darpariaeth sydd ar gael i bawb | • Eiriol, lobïo ac ymgyrchu dros brydau ysgol am ddim i bawb, yn ddisgyblion ysgolion uwchradd yn ogystal â chynradd<br>• Eiriol, lobïo ac ymgyrchu dros gyfiawnder trafnidiaeth<br>• Mynd i'r afael â'r loteri cod post wrth ddarparu gwasanaeth, gan gynnwys gwahaniaethau mewn meini prawf cymhwyster, drwy symud tuag at fodel mynediad sy'n darparu ar gyfer pawb |
| Lleihau neu ddileu asesiad cymhwyster | • Creu lle ar gyfer newid mewn gwasanaethau o 'fynnu prawf perfformiadol' i wrando ar bobl sy'n defnyddio gwasanaethau a'u credu<br>• Sicrhau bod cymorth ar gael yn ddisylw ac yn rhwydd lle bo modd yn hytrach na disgwyl i bobl ofyn neu ymgeisio amdano |
| Cydleoli gwasanaethau | • Buddsoddi mewn mannau cymunedol sy'n cynnig nifer o wasanaethau |
| Galluogi mynediad drwy berthnasoedd y gellir ymddiried ynddynt | • Cefnogi mentrau lleol yn cael eu harwain gan y gymuned sy'n gweithio'n barod<br>• Gweithio ar y cyd â chymunedau er mwyn cydgynhyrchu atebion<br>• Dysgu o fodelau llwyddiannus lle mae cymunedau'n darparu gwasanaethau yn eu hardaloedd eu hunain<br>• Gweithredu modelau cymunedol llwyddiannus, megis dull gweithredu Canolfan y Ffenics, ar raddfa fwy |

## Tabl 3: Meysydd gweithredu a nodwyd mewn cysylltiad â darparu gwasanaethau ag urddas a pharch

| Meysydd gweithredu a nodwyd mewn tystiolaeth ryngwladol | Syniadau ar gyfer newid a nodwyd gan y cyfranogwyr |
|---|---|
| Creu amgylcheddau croesawus ac urddasol | 1. Creu amgylcheddau ffisegol mwy agored a chroesawus i bobl sy'n defnyddio cymorth<br>2. Cael gwared ar staff diogelwch mewn adeiladau gwasanaeth lle nad ydynt yn hanfodol ar gyfer diogelwch<br>3. Gweithredu er mwyn amrywio'r gweithlu ar draws gwasanaethau<br>4. Sicrhau bod gwasanaethau'n gyfleus i bobl sydd angen cael mynediad atynt, er enghraifft drwy gadw opsiynau mynediad ffisegol er mwyn osgoi allgáu digidol<br>5. Darparu parseli bwyd wedi'u pacio ymlaen llaw er mwyn lleihau'r angen i bobl aros mewn ciwiau hir<br>6. Gweithio gyda chymunedau er mwyn nodi asedau ac amgylcheddau lleol a fydd yn cyrraedd y bobl sydd â'r angen mwyaf a allai fod yn cael anhawster i gael mynediad at wasanaethau |
| Galluogi ymreolaeth a dewis | 1. Sefydlu mynediad at hyfforddiant stigma tlodi di-dâl, wedi'i dargedu'n benodol tuag at fynd i'r afael â stigma wrth ddylunio a darparu gwasanaethau<br>2. Archwilio am ffyrdd gwell o gefnogi'r grwpiau sydd fwyaf tebygol o brofi stigma tlodi, fel ceiswyr lloches a ffoaduriaid, sy'n aml heb waith.<br>3. Darparu mwy o ddewis a mwy o opsiynau cynhwysol, er enghraifft bwyd halal a bwyd ffres mewn banciau bwyd, ac ystod ehangach o amseroedd apwyntiadau<br>4. Adeiladu ar y rhaglen COAST a bwyd yn ystod y gwyliau<br>5. Mynd i'r afael ag anghenion ymarferol wrth ddarparu gwasanaethau, er enghraifft cynnig cymorth digidol ac wyneb yn wyneb er mwyn darparu dewis go iawn<br>6. Cyflwyno cynlluniau cysgodi er mwyn gwella dealltwriaeth o brosesau gwasanaethau |
| Dulliau arian yn gyntaf | 1. arhau i weithio gyda'r Rhwydwaith Cymorth Bwyd Annibynnol, gan gynnwys hyrwyddo taflenni arian yn gyntaf<br>2. Hybu defnydd o gyllid grant tlodi bwyd er mwyn cynnig talebau i bobl sy'n defnyddio banciau bwyd<br>3. Cyflwyno hyfforddiant canllawiau ariannol y Gwasanaeth Arian a Phensiynau<br>4. Sicrhau bod dulliau grymuso'n cael eu darparu'n deg, fel bod egwyddorion arian yn gyntaf, os ydynt yn cael eu mabwysiadu, yn cael eu cymhwyso'n gyson |
| Sicrhau urddas a pharch | 1. Cynnal archwiliadau diogelu rhag tlodi ar gyfer ysgolion a gwasanaethau cyhoeddus eraill<br>2. Cael gwared ar brosesau lle mae pobl sy'n profi tlodi yn cael eu dewis a'u dethol yn benodol, er enghraifft pasys bws penodol sy'n dangos bod unigolion yn cael cymorth<br>3. Mesur sut mae ysgolion yn mynd i'r afael â thlodi<br>4. Ymwreiddio dewis a darpariaeth ar gyfer pawb mewn cymorth lle bo modd |

## Tabl 4: Meysydd gweithredu a nodwyd mewn cysylltiad â newid iaith, diwylliant a systemau

| Meysydd gweithredu a nodwyd mewn tystiolaeth ryngwladol | Syniadau er mwyn mynd i'r afael â stigma tlodi yn Abertawe |
|---|---|
| Cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth, a herio rhagfarn | 1. Darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth o dlodi i wasanaethau cyhoeddus<br>2. Gweithredu hyfforddiant "credu pobl" gorfodol i'r holl staff rheng flaen<br>3. Gweithredu'r Siarter Ailddynoli Systemau a Gwasanaethau a ddatblygwyd gan Gomisiwn Gwirionedd Tlodi Abertawe |
| Newid iaith a naratif | 1. Adolygu enw a/neu frand cynlluniau gwrth-dlodi<br>2. Datblygu dealltwriaeth a rennir o iaith gynhwysol ymhlith darparwyr gwasanaeth, er enghraifft drwy lawlyfr iaith<br>3. Osgoi labelu pobl sydd angen cymorth, er enghraifft drwy ddefnyddio termau fel 'tlawd'<br>4. Symleiddio iaith mewn cyfathrebiadau, gan gynnwys ffurflenni a llythyrau swyddogol |
| Cynnwys pobl sydd â phrofiad personol | 1. Cynyddu rhan pobl sydd â phrofiad personol yn y gwaith o gynllunio gwasanaeth<br>2. Gwahodd pobl sydd â phrofiad personol i archwilio gwasanaethau<br>3. Cyflogi pobl sydd â phrofiad personol mewn rolau rheng flaen ar draws gwasanaethau<br>4. Trefnu prosiectau neu ddigwyddiadau sy'n dod ag aelodau o'r gymuned a darparwyr gwasanaeth at ei gilydd i glywed yn uniongyrchol gan bobl sydd â phrofiad personol, er enghraifft drwy ddefnyddio dull llyfrgell o bobl<br>5. Adnabod ac ariannu rhwydweithiau cefnogaeth gan gymheiriaid anffurfiol |
| Eiriol dros newid systemau ehangach | 1. Darparu hyfforddiant a rennir ar draws partneriaethau<br>2. Cynnwys gweithredu ar stigma tlodi fel Dangosydd Perfformiad Allweddol<br>3. Adeiladu a rhannu tystiolaeth ynglŷn â beth sy'n gweithio er mwyn mynd i'r afael â stigma tlodi gydag ardaloedd eraill a llunwyr polisïau<br>4. Datblygu targedau mesuradwy i fynd i'r afael â stigma tlodi<br>5. Lobïo ac ymgyrchu dros newidiadau i'r system les a herio agweddau ar bolisi budd-daliadau cenedlaethol<br>6. Datblygu ymgyrch wrth-stigma er mwyn newid agweddau'r cyhoedd<br>7. Cynnwys partneriaid y trydydd sector a'r sector preifat mewn gweithgaredd rheolaidd<br>8. Datblygu strategaeth i Abertawe yn ei chyfanrwydd ar gyfer cydgynhyrchu a chynnwys |

**Awduron:**
**Charlotte Morgan**
**Alex Jones**
**Josh Coles-Riley**
**Amanda Hill-Dixon**

**Lluniau © Sukhy Hullait, a gomisiynwyd gan Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru**

Mai 2026




# Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Prifysgol Caerdydd
Sbarc | Spark
Heol Maendy
Caerdydd
CF24 4HQ

www.wcpp.org.uk/cy
029 2087 5345
info@wcpp.org.uk
WCfPP

Economic and Social Research Council
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Cardiff University Prifysgol Caerdydd